# Canllaw derbyn grant: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau)

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y byddwch yn derbyn eich grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau). Mae hefyd yn esbonio beth rydyn ni'n ei ddisgwyl gennych chi.

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| Grantee Outstanding Permissions Template | 3.97 KB |

**Tudalen wedi'i chreu: 18 Awst 2022.**

## Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar dderbyn grant Cronfa Rhwydweithiau Natur, rydym yn edrych ymlaen at eich helpu i ddarparu prosiect llwyddiannus.

Arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw'r arian y byddwch yn ei dderbyn, ac oherwydd hynny mae'n rhaid i ni sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn modd atebol. Mae hyn yn golygu bod nifer o brosesau y mae angen i chi eu dilyn drwy gydol oes eich prosiect. Rydym yn ceisio gwneud y rhain yn gymesur â faint o grant rydych chi'n ei dderbyn.

Rydym yn gwerthfawrogi efallai mai dyma'r tro cyntaf i chi dderbyn cyllid gennym, ac efallai y byddwch yn ansicr sut i ofyn am eich grant a rhoi gwybod i ni am eich cynnydd. Mae'r dudalen hon yn esbonio beth i'w wneud a bydd yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Mae hefyd yn nodi ein harferion safonol, ond nodwch y gallwn ddewis amrywio ein prosesau yn dibynnu ar amgylchiadau penodol eich prosiect.

### Gweithio gyda ni

Rydyn ni'n hoffi gweithio mewn ffordd gydweithredol, felly cadwch mewn cysylltiad â ni os oes angen ein cefnogaeth arnoch. Eich pwynt cyswllt cyntaf gyda'r Gronfa Treftadaeth yw'r person a enwir yn eich e-bost hysbysu. Gwahoddwch ni i ddigwyddiadau ac agoriadau prosiect allweddol a byddwn yn anelu at anfon cynrychiolydd lle bo modd, i ddangos ein cefnogaeth i'ch prosiect.

Rydym yn disgwyl i chi ymateb yn amserol i unrhyw geisiadau am wybodaeth a thrafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect gyda ni. Mae’n rhaid i chi fynd i'r afael ag unrhyw faterion yr ydym yn eu hadnabod drwy gydol eich prosiect. Byddwn yn cynnal archwiliadau o bryd i'w gilydd i gadarnhau eich bod yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn eich cais a'r dibenion cymeradwy a nodir yn eich llythyr hysbysu grant.

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r contract grant, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ad-daliad rhannol neu'ch holl grant.

# Gair i gall

- peidiwch â dechrau eich prosiect cyn i ni roi caniatâd i chi
- gwerthuswch eich prosiect o'r dechrau
- cadwch olwg ar wariant eich prosiect
- cadwch olwg ar amserlen eich prosiect
- cadwch bob anfoneb a derbynneb wedi'u trefnu
- sicrhewch eich bod yn adnabod eich dibenion cymeradwy
- adolygwch a dysgwch o'r hyn rydych chi'n ei wneud
- gwnewch yn si?r eich bod yn siarad â ni am unrhyw faterion
- cadwch dystiolaeth prosiect, er enghraifft o lansiadau, gweithdai a hyrwyddo
- yn anad dim arall, mwynhewch eich prosiect!

# Dogfennau pwysig

Rydym yn argymell eich bod yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau canlynol cyn cychwyn ar eich prosiect:

- contract grant
- Canllawiau ymgeisio Cronfa Rhwydweithiau Natur ar ein gwefan
- Gwerthuso: Canllawiau Arferion Da

Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn adrannau canllawiau arferion da y wefan.

Rydym hefyd yn argymell bod pawb sy'n ymwneud yn agos â chyflwyno eich prosiect yn dod yn gyfarwydd â'r cais a gyflwynwyd gennych i ni. Yn benodol, dylent ddeall y canlyniadau a'r dibenion cymeradwy yr ydych wedi ymrwymo i'w cyflawni.

# Rhoi dechrau arni

## Grantiau o £30,000-£250,000

Bydd angen i chi fewngofnodi i'r porth grantiau er mwyn cytuno i'r contract grant. Mae'n rhaid i chi:

- Gwiriwch fod y manylion sydd gennym am eich prosiect yn gywir a dywedwch wrthym a oes unrhyw newidiadau i'ch prosiect ers i chi wneud cais am y tro cyntaf.
- Anfonwch unrhyw dystiolaeth newydd i ni ar gyfer eich prosiect, gan gynnwys:
    - copi o ddatganiad banc diweddar, slip talu neu siec
    - cynllun monitro ar gyfer pob safle prosiect
    - prawf o gyllid partneriaeth
    - prawf dogfennol o berchnogaeth eiddo gan gynnwys er enghraifft copïau diweddaraf o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda chynllun), prydlesau a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol
    - prawf o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau statudol angenrheidiol
    - rhagolwg llif arian prosiect
- darllen telerau ac amodau'r grant a Thelerau Grant Safonol

- ddweud wrthym fanylion dau arwyddwr cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad, fel y gallwn anfon dolen atynt er mwyn lawrlwytho, darllen, arwyddo ac uwchlwytho'r telerau ac amodau

Unwaith y byddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, gan gynnwys eich telerau ac amodau wedi'u llofnodi, byddwn yn anfon e-bost atoch i'ch hysbysu y gallwch ddechrau'r prosiect.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich contract grant wedi'i lofnodi a thystiolaeth o fewn tri mis o gael gwybod am eich dyfarniad grant. Os na fyddwch yn derbyn y caniatâd, y trwyddedau neu'r caniatâd perthnasol ymhen tri mis, cysylltwch â'ch Rheolwr Buddsoddi i gael cyngor.

### Grantiau o £250,000-£1miliwn

Bydd angen i chi fewngofnodi i'r porth grantiau er mwyn gweithio drwy'r broses Caniatâd i Ddechrau. Mae'n rhaid i chi:

- Cwblhewch y ffurflen Caniatâd i Ddechrau, gan gynnwys dweud wrthym a oes unrhyw newidiadau i'ch prosiect ers i chi wneud cais cyntaf.
- Gwiriwch fod y manylion sydd gennym am eich prosiect yn gywir.
- Anfonwch unrhyw dystiolaeth newydd i ni ar gyfer eich prosiect, gan gynnwys:
    - copi o ddatganiad banc diweddar, slip talu neu siec
    - cynllun monitro ar gyfer pob safle prosiect
    - prawf o gyllid partneriaeth
    - prawf dogfennol o berchnogaeth eiddo gan gynnwys er enghraifft copïau diweddaraf o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda chynllun), prydlesau a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol
    - prawf o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau statudol angenrheidiol
    - rhagolwg llif arian prosiect
- Darllenwch delerau ac amodau'r grant a Thelerau Grant Safonol
- Lawrlwythwch eich ffurflen Caniatâd i Ddechrau wedi ei gwblhau a llwythwch gopi wedi'i lofnodi. Dylai gael ei lofnodi gan y person sy'n cwblhau'r ffurflen, dau arwyddwr cyfreithiol ar gyfer y sefydliad (gall un ohonynt fod yr un person a gwblhaodd y ffurflen), a phartneriaid prosiect os yw'n berthnasol. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen Caniatâd i Ddechrau a thystiolaeth o fewn tri mis o gael gwybod am eich dyfarniad grant. Os na fyddwch yn derbyn y caniatâd neu'r trwyddedau perthnasol ymhen tri mis, cysylltwch â'ch Rheolwr Buddsoddi i gael cyngor.

## Taliadau eich grant

Bydd taliad yn cael ei roi i'r cyfrif banc a nodir yn eich ffurflen Cais Caniatâd i Ddechrau a Thalu.

### Grantiau o dan £100,000

Telir eich grant mewn tri rhandaliad yn seiliedig ar y canrannau canlynol:

- **50%:** Unwaith rydyn ni wedi rhoi Caniatâd i Ddechrau.

- **40%:** Unwaith y gallwch chi roi tystiolaeth bod 50% o gyfanswm costau'r prosiect wedi'u gwario.
- **10%:** Unwaith y bydd eich prosiect wedi'i gwblhau.

### Grantiau mwy na £100,000

Byddwn yn talu eich grant mewn ôl-ddyledion unwaith y byddwch yn gallu darparu anfonebau neu dderbynebau sy'n dangos eich gwariant prosiect. Byddwn yn cytuno ar amserlen daliadau gyda chi ar ddechrau eich prosiect, a bydd taliadau'n cael eu gwneud wrth i'r prosiect fynd rhagddo, yn amodol arnoch chi'n darparu tystiolaeth o wariant.

Bydd angen i chi ddefnyddio'r ffurflen Cais am Daliad i ofyn am daliad eich grant. Fel arfer rydym yn disgwyl i Adroddiad Cynnydd gael ei gyflwyno gyda'r Ffurflen Cais am Daliad er mwyn derbyn taliad o'ch grant, gan y byddwn ond yn rhyddhau taliadau ar ôl bod yn fodlon â chynnydd eich prosiect.

### Yr holl grant

Rydym yn atal y 10% olaf o'ch grant nes bod y prosiect wedi'i gwblhau. Byddwn ond yn talu'r 10% yn llawn os:

- mae cyfanswm y costau a gytunwyd wedi eu gwario *a*
- rydych chi wedi cwblhau a chyflwyno eich Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol, gan gynnwys dangos dystiolaeth o gyfanswm costau eich prosiect

### Canran y taliad

Byddwn yn talu cyfran o'r costau yr ydych wedi'u hysgwyddo yn seiliedig ar ganran y taliad a nodwyd yn eich llythyr hysbysu am grant. Felly os ydych yn darparu anfonebau gwerth £50,000 a'ch canran dalu yw 85%, eich taliad grant fydd £42,500.

Os ydych yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw grant nad yw wedi'i wario i ni. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gostau eich prosiect cyffredinol a chanran y taliad a nodwyd yn eich llythyr hysbysu am grant. Gweler adran 'Cwblhau'r adroddiad a'r cais talu terfynol' o'r ddogfen hon am fanylion pellach ynghylch sut mae talu prosiectau tanbaid yn cael ei gyfrifo.

## Cyflwyno'r prosiect

### Dyddiad y daw'r grant i ben

Mae'n rhaid i chi gwblhau eich prosiect a chyflwyno eich Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol erbyn y Dyddiad y Daw'r Grant i Ben:

- Mae gan brosiectau sydd â grantiau o £30,000-£250,000 ddyddiad y daw'r grant i ben ar 31 Mawrth 2025.

- Mae gan brosiectau gyda grantiau o £250,000-£1miliwn ddyddiad y daw'r grant i ben ar 31 Mawrth 2026.

Ni allwn roi estyniadau i'r amserlen hon. Os yw eich prosiect mewn perygl difrifol o beidio â chwblhau, efallai y byddwn yn cau eich prosiect yn gynnar ac yn gofyn am ad-daliad pob un neu ran o'ch grant, felly trafodwch gyda ni ar yr amser cynharaf posibl.

## Cydnabod eich Grant Cronfa Rhwydweithiau Natur

Mae cydnabod eich grant yn un o amodau'r contract grant. Mae'n rhaid i chi gydnabod Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Treftadaeth ym mhob deunydd print a digidol rydych yn eu cynhyrchu, er enghraifft, ar ymgynghoriad cyhoeddus neu wybodaeth neu ddeunyddiau codi arian. Mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys y logos ar bob dyluniad neu gynllun rydych chi'n eu cynhyrchu, ar bob adroddiad neu arolwg arbenigol, ac ar bob dogfen dendro neu hysbyseb swydd sy'n cael eu hariannu gan eich grant.

Rydym yn eich annog i ddatblygu cynigion neu hyrwyddiadau arloesol a chreadigol sydd wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth o'n cyllid. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i'r wasg neu ddigwyddiadau yn cydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru i'ch sefydliad a'ch prosiect.

Dysgwch sut i gydnabod eich grant. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'n canllawiau cydnabod rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i wneud taliadau ac i ofyn am ad-daliad rhywfaint neu'r cyfan o'ch grant.

## Caffael: ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr

Ym mhob prosiect, pryd bynnag y byddwch yn defnyddio eich grant i brynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau, byddwn yn gofyn i chi roi manylion am yr ymgynghoriad caffael i ni (sef y broses o brynu, tendro a dewis). Os ydych eisoes wedi prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut wnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich grant os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn a amlinellir isod.

Dylech bob amser ystyried cydraddoldeb triniaeth, tryloywder, cydnabyddiaeth gydfuddiannol a chymesuredd wrth gaffael unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau.??

Os ydych chi'n grantî corff cyhoeddus neu os yw eich prosiect yn destun deddfwriaeth caffael cyhoeddus, yna mae'n rhaid i chi ddilyn y ddeddfwriaeth berthnasol.???

Mae'n rhaid i weithdrefnau i recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth berthnasol. Dylai ffioedd ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr neu weithwyr proffesiynol eraill rydych chi'n eu recriwtio yn ystod y prosiect fod yn unol â chanllawiau proffesiynol a bod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig glir. Os oes cysylltiad rhwng unrhyw un o'r contractwyr, cyflenwyr neu ymgynghorwyr yr hoffech eu penodi - er enghraifft, os ydynt yn ffrindiau agos neu'n berthnasau, neu os oes ganddynt unrhyw gyswllt ariannol, fel perchnogaeth – bydd angen i chi gael ein caniatâd ysgrifenedig yn gyntaf.?

Os nad ydych yn si?r ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i gymryd cyngor proffesiynol neu gyfreithiol.

**O dan £10,000?**

Os ydych yn prynu nwyddau, gweithiau neu wasanaethau i lai na £10,000 nid oes angen i chi dendro'n agored ar gyfer y rhain neu gael sawl dyfyniad. Byddwn yn dal i ddisgwyl i chi ddangos gwerth cyffredinol am arian.

**Rhwng £10,000 a £50,000? ?**

Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dri dyfyniad cystadleuol ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau gwerth £10,000 neu fwy (heb gynnwys TAW) yr ydym wedi cytuno i'w hariannu.??

Nid oes o reidrwydd angen penodi'r contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfyniad isaf. Wrth benderfynu pwy i benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth cyffredinol am arian mae'r dyfyniad yn cyflwyno a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd.??

**Mwy na £50,000?**

Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (heb gynnwys TAW), mae'n rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol. Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau rydych chi wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad i'w dderbyn.??

Nid oes o reidrwydd angen penodi'r contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfyniad isaf. Wrth benderfynu pwy i benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth cyffredinol am arian mae'r dyfyniad yn cyflwyno a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, cyflenwr neu ymgynghorydd.??

**Pan nad oes angen tendr cystadleuol**

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes angen i chi wneud trefn dendro gystadleuol a gallwch wahodd un sefydliad yn unig i dendr. Dyma lle:

- mae cyfanswm pris y contract yn llai na £10,000
- mae cytundeb fframwaith mewn lle ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau sydd wedi eu tendro'n gystadleuol o'r blaen, ac mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn uniongyrchol berthnasol i gwmpas y gwaith prosiect
- mae contract prosiect ar waith, sydd wedi cael ei dendro'n gystadleuol yn y gorffennol, ac mae'n rhesymegol ymestyn i gwmpasu gwaith prosiect ychwanegol. Yn yr achos hwn mae'n rhaid i chi gadarnhau:??
- yn achos gwaith cyfalaf gellir defnyddio prisiau'r rhan fwyaf o elfennau gwaith, gan gynnwys rhagarweiniau, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o'r contract presennol i'r gwaith newydd
  mae'r gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac mae o fath tebyg i brif waith y contract
  ni fydd y contractwr yn hawlio tarfu na chost ymestyn i'r prif gontract os yw'r gwaith newydd

yn cael ei gyflwyno
mae'r contract presennol yn cyfyngu ar waith sy'n cael ei wneud gan eraill

- yn achos gwaith cyfalaf gellir defnyddio prisiau'r rhan fwyaf o elfennau gwaith, gan gynnwys rhagarweiniau, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o'r contract presennol i'r gwaith newydd
- mae'r gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac mae o fath tebyg i brif waith y contract
- ni fydd y contractwr yn hawlio tarfu na chost ymestyn i'r prif gontract os yw'r gwaith newydd yn cael ei gyflwyno
- mae'r contract presennol yn cyfyngu ar waith sy'n cael ei wneud gan eraill
- nid yw'r cwmni sy'n darparu'r tendr sengl wedi'i gysylltu, naill ai drwy berchnogaeth neu drwy gysylltiadau teuluol, gydag uwch gynrychiolwyr y grantî

**Gwerthoedd cymdeithasol**

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried gwerthoedd cymdeithasol yn eich caffael, gan gynnwys:

- cadwyni cyflenwi amrywiol?
- cyflogadwyedd a sgiliau gwell?
- cynhwysiant, iechyd meddwl a llesiant
- cynaliadwyedd amgylcheddol?
- cadwyni cyflenwi diogel?

**Byddwch yn ymwybodol o'n gofyniad trwydded ddigidol**

Dylech sicrhau bod unrhyw gontractwr/cyflenwr/ymgynghorydd a allai gyfrannu at greu allbynnau digidol yn ymwybodol o'n gofyniad am brosiectau i rannu'r rhain o dan drwydded Ryngwladol Attribution 4.0 Creative Commons neu gyfwerth, a sicrhau bod gennych gytundeb ar gyfer y gwaith sy'n deillio o hynny i'w rannu fel hyn. Pan nad yw hynny'n bosibl, mae'n rhaid i chi geisio cytundeb ysgrifenedig i wneud trefniadau amgen gyda ni, er enghraifft defnyddio Trwydded Agored amgen, cyn cyhoeddi unrhyw gontract gwaith.

## Recriwtio staff

Mae'n rhaid hysbysebu pob swydd staff gyda'r eithriadau a ganlyn:

- Os oes gennych aelod o staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres rydych yn symud i'r swydd a grëwyd gan eich prosiect.
- Os oes gennych aelod o staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres y mae ei oriau'n ymestyn fel y gallant weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost eu horiau ychwanegol a dreulir ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym am y rôl y byddant yn ei chyflawni.

Efallai y byddwn yn gofyn am weld tystiolaeth o'r weithdrefn recriwtio a ddilynwyd gennych, felly cadwch y cofnodion hyn yn ddiogel.

Os ydych yn symud aelod o staff presennol i swydd a grëwyd gan y prosiect, yna gallwn naill ai dalu am gost yr aelod o staff hwn, neu am gost ad-dalu eu swydd, pa bynnag gost sydd yn llai. Mae

ôl-lenwi lle mae gweithiwr yn cael ei neilltuo i swydd newydd ac mae eu safle'n cael ei lenwi dros dro gan weithiwr arall.

Os ydych yn dymuno penodi unrhyw aelodau staff newydd ar eich prosiect sydd â chysylltiad ag unrhyw aelodau o staff yn eich sefydliad, er enghraifft, unrhyw ffrindiau agos, perthnasau, neu gyn-aelodau staff, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym yn gyntaf.

Dylai pob cyflogau fod yn seiliedig ar ganllawiau'r sector neu swyddi tebyg mewn mannau eraill.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol a chynaliadwy. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio cyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer holl staff y prosiect.

## TAW

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill, felly eich cyfrifoldeb chi yw gofyn am gyngor priodol.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau lle rydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

Os ydych chi'n gwario llai ar TAW nag yr ydych wedi amlinellu yn yr adran costau prosiect o'ch cais, gallwch, gyda'n caniatâd, drosglwyddo'r tanwariant i bennawd cost arall os dangosir angen clir. Bydd angen i chi ddangos sut mae'r newidiadau hyn

## Dogfennau ategol

Mae'n bwysig bod dogfennau rydych chi'n eu cyflwyno drwy'r prosiect yn ddarllenadwy ac yn cael enwau sy'n disgrifio eu cynnwys yn ddefnyddiol. Wrth gyflwyno anfonebau, dylid cyfuno'r rhain yn un ffeil a'u nodi yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr hawliad. Dylai sganiau fod mewn monocrom yn ddelfrydol (du a gwyn neu raddfa lwyd) gan y bydd y rhain yn ffeiliau llai ac yn caniatáu ichi atodi mwy.

Dylai pob dogfen fod ar ffurf PDF, ac eithrio taenlenni a ddylai fod yn eu fformat gwreiddiol.

## Cofnod ffotograffig

Rydym yn disgwyl i chi gasglu lluniau drwy gydol eich prosiect sy'n dangos eich cynnydd y dylech ei gyflwyno gyda'ch Adroddiad Cynnydd (lle bo hynny'n berthnasol). Bydd angen i chi ddarparu cofnod ffotograffig o'ch prosiect gyda'ch Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol. Dylai hyn gynnwys o leiaf pum delwedd ddigidol cydraniad uchel mewn fformat electronig sy'n dangos gwahanol agweddau ar eich prosiect.

Dylai'r delweddau ddangos eich prosiect ar waith a'i ganlyniad. Bydd angen i chi ddarparu sampl o ddelweddau sy'n dangos eich prosiect cyn, yn ystod ac ar ôl iddo gael ei orffen.  Wrth lenwi eich Adroddiad Cynnydd a'ch Adroddiad Cwblhau a'ch ffurflen Cais Am Daliad Terfynol, gallwch roi gwybod i ni os oes deunydd o'ch prosiect ar gael ar y rhyngrwyd a lle mae modd dod o hyd iddo.

Efallai y byddwn yn gwneud defnydd o'ch delweddau mewn deunydd cyhoeddusrwydd. Rydych chi'n rhoi'r hawl i ni ddefnyddio'r rhai rydych chi'n eu darparu i ni ar unrhyw adeg, gan gynnwys eu newid. Mae'n rhaid i chi gael yr holl ganiatâdau sydd eu hangen ar eich cyfer chi a ni i wneud defnydd ohonynt cyn i chi eu defnyddio neu eu hanfon atom.

Dylai'r delweddau hyn, ynghyd ag allbynnau digidol eraill o'ch prosiect, gael eu rhannu gyda thrwydded agored hefyd (Creative Commons Attribution 4.0 International). Os nad chi yw'r deiliad hawliau, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych gytundeb i rannu'r delweddau hyn o dan y drwydded agored benodedig hon.

Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn casglu caniatâd ysgrifenedig priodol gan unrhyw un sy'n ymddangos yn y delweddau hyn y gellir eu hailddefnyddio mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a deunyddiau hyrwyddo, ac y gellir eu rhannu ar-lein o dan y drwydded agored benodedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae delweddau'n cynnwys pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed a lle mae'n rhaid gofyn am ganiatâd penodol ymlaen llaw. Os oes angen unrhyw arweiniad arnoch ar hyn, siaradwch â ni.

Os nad yw eich delweddau'n addas i'w rhannu o dan drwydded agored, bydd angen rhoi trefniadau eraill yn eu lle. Siaradwch â ni cyn gynted â phosibl.

## Cynllun Grantiau Cymunedol

Fel rhan o'ch prosiect, efallai eich bod wedi gofyn i ni gyfrannu tuag at bot o arian sydd wedi'i glustnodi y gallwch ei ddefnyddio i ariannu grwpiau/sefydliadau eraill (yr ydym yn eu galw'n Derbynwyr Grant Cymunedol) i ddarparu prosiectau arwahanol bach (Grantiau Cymunedol).

Bydd y Grantiau Cymunedol hyn yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich prosiect. Mae'n rhaid i unrhyw grantiau fel hyn ddangos gwerth da am arian, a dylai budd cyhoeddus orbwyso unrhyw elw preifat.

Byddwch yn rheoli'r pot ariannu, datblygu proses ymgeisio gyda phanel penderfynu ac yn monitro cynnydd. Mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun Grant Cymunedol gennych hefyd, felly mae'n hysbys ac yn agored i bawb.

Efallai y byddwch am wneud taliadau Grantiau Cymunedol i berchnogion trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) ar gyfer gweithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at sicrhau canlyniadau prosiect. Os mai chi yw'r prif ymgeisydd, rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau'r prosiect penodol yn cael eu cyflawni gan dirfeddianwyr trydydd parti (y Derbynwyr Grant Cymunedol) a bod y contract grant yn cael ei gydymffurfio â hi, gan gynnwys ad-dalu'r grant os oes angen.

Dylid ffurfioli hyn trwy gytundebau trydydd parti sy'n diffinio'r canlyniadau sydd i'w cyflawni ar dir trydydd parti. Dylent hefyd sicrhau rheolaeth a chynnal gwaith cyfalaf o ddyddiad disgwyliedig cwblhau'r gwaith tan 10 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Dylai hyn fod yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'r Derbynwyr Grant Cymunedol.

Mae'r ddolen hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am ddarparu Cynllun Grant Cymunedol a Chwestiynau Cyffredin.

## Diweddaru ni ar eich prosiect

Wedi i ni gadarnhau bod gennych ganiatâd i ddechrau, nid oes angen i chi gyflwyno unrhyw ffurflenni pellach nes eich bod yn barod i hawlio ail randaliad eich grant.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw broblemau neu faterion arwyddocaol sy'n codi yn ystod eich prosiect fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys materion a allai arwain at newidiadau mewn costau, oedi difrifol, neu fethu â chyflawni'r dibenion a'r canlyniadau cymeradwy. Rhowch wybod ymlaen llaw i ni am unrhyw ddigwyddiadau a'n diweddaru ar unrhyw lwyddiannau a straeon newyddion da.

## Newidiadau i'r prosiect

Ni allwch newid dibenion cymeradwy eich prosiect heb ein cytundeb ysgrifenedig blaenorol. Os ydych chi am i ni ystyried unrhyw newidiadau i'ch dibenion cymeradwy, mae'n rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig atom am y rhesymau dros y cais ac egluro sut y bydd yn effeithio ar:

- ansawdd a chanlyniadau eich prosiect
- cost eich prosiect
- yr amser y mae angen i chi gwblhau eich prosiect
- hyfywedd eich prosiect yn y dyfodol

Yna, gallwn ail-asesu'r prosiect neu gymryd unrhyw gamau eraill yr ydym yn ystyried eu bod yn angenrheidiol. Mae'n bosib y byddwn yn rhoi caniatâd i'r newid dim ond os ydych yn cytuno i gadw at delerau ac amodau ychwanegol.

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt â ni fod yn ysgrifenedig a dylid hefyd roi gwybod amdanynt yn eich Adroddiad Cynnydd a/neu Adroddiad Gorffen a ffurflen Cais Terfynol am Daliad.

## Newidiadau i'r gyllideb

Mae eich llythyr hysbysu grant yn cynnwys costau'r prosiect a gytunwyd fel rhan o'ch grant. Dylid rhoi gwybod am yr holl arian sy'n cael ei wario ar y prosiect yn erbyn y penawdau cost hyn.

Os oes angen i chi wneud mân newidiadau a symud arian rhwng y penawdau cost hyn er mwyn cyflawni eich dibenion cymeradwy gallwch roi gwybod am hyn yn eich Adroddiad Cynnydd. Mae'n rhaid i chi ddangos sut gwnaeth y newidiadau hyn eich helpu i gyflawni eich prosiect.

Mae'n rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r penawdau costau hyn ac am unrhyw wariant mawr yn eich arian wrth gefn. Nodwch fod rhaid i bob newid fod o fewn y terfynau cyfalaf/refeniw a osodir gan Lywodraeth Cymru yn y canllawiau ymgeisio. Dylai tua 90% o gyfanswm costau'r prosiect fod yn gyfalaf. Mae hyd at 10% o gyllid refeniw ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r prosiect.

Os ydych yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, byddwn yn addasu eich taliad terfynol yn unol â hynny ac efallai y bydd angen i chi ddychwelyd rhywfaint o'ch grant i ni. Gweler adran 'Adroddiad Cwblhau a Chais Terfynol y Taliad' o'r dudalen hon am fanylion am sut mae hyn yn cael ei gyfrifo.

Os bydd cyfanswm cost y prosiect yn cynyddu yn ystod y prosiect, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich grant. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu rhagor o wybodaeth.

# Cwblhau eich prosiect

Unwaith y bydd eich prosiect wedi ei gwblhau, bydd rhaid i chi gyflwyno'r Ffurflen Adroddiad Gorffenedig a'r ffurflen Cais Am Daliad Terfynol. Bydd y ffurflen hon yn caniatáu ichi hawlio taliad terfynol eich grant (hyd at 10%). Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn cyn gynted ag y gallwch chi gasglu'r holl wybodaeth at ei gilydd a thra bod y prosiect yn dal i fod yn ffres yn eich meddwl.

Mae'n **rhaid** i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno erbyn y dyddiad y daw'r prosiect i ben. Os na fyddwn yn derbyn yr adroddiad yn yr amserlen hon, mae'n bosibl y byddwn yn atal eich taliad terfynol neu'n gofyn am ad-dalu rhywfaint neu'ch holl grant.

Trwy gwblhau rydyn ni'n golygu:

- mae eich prosiect wedi gorffen, ac rydych wedi cyflawni eich dibenion cymeradwy
- rydych wedi dilyn ein canllaw cydnabyddiaeth y Gronfa Rhwydweithiau Natur drwy gydol y prosiect
- mae gennych dystysgrif gwblhau ymarferol neu gyfatebol (ar gyfer prosiectau sydd wedi gwneud gwaith cyfalaf)
- gallwch gyflenwi ffotograffau prosiect digidol cydraniad uchel a phrawf o gydnabyddiaeth o'n cyllid
- rydych wedi rhestru allbynnau digidol y prosiect ac wedi darparu cyfeiriad gwe (URL) y wefan neu'r gwefannau lle gellir mynd atynt

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais terfynol am Grant, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau gennych. Felly, dylech gytuno ar eich cyfrifon terfynol gyda'ch contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad grant terfynol.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi ar gyfnodau ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau gan gynnwys drwy ein harolygon cwsmeriaid.

## Prosiectau sy'n cwblhau o dan y gyllideb

Os ydych yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw grant nad yw wedi'i wario i ni. Os yw'r tanwariant yn llai na 10% o'ch grant byddwn yn addasu taliad terfynol eich grant yn unol â hynny. Os yw'r tanwariant yn fwy na 10% o'ch grant bydd angen i chi ddychwelyd y grant sydd heb ei wario atom trwy siec neu drosglwyddiad BACS (mae manylion banc ar gael ar gais). Bydd eich taliad terfynol yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gostau eich prosiect cyffredinol a chanran y grant a nodwyd yn eich llythyr hysbysu grant.

Os bydd eich prosiect yn cwblhau o dan gyllideb, mae'n rhaid i chi gadw'r terfynau cyllideb a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y canllawiau ymgeisio. Dylai tua 90% o gyfanswm costau'r prosiect fod yn gyfalaf. Mae hyd at 10% o gyllid refeniw ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r

prosiect.